Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1057 (Cy. 249)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) (Dirymu) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/2539 (Cy. 278)) sy'n pennu, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, wrth iddynt arfer swyddogaethau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1057 (Cy. 249)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) (Dirymu) 2016

*Gwnaed* *1 Tachwedd 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *2 Tachwedd 2016*

*Yn dod i rym* *24 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae adran 8(3) o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) (Dirymu) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Tachwedd 2016.

### Dirymu

**2.** Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012(**2**) wedi ei ddirymu.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
1 Tachwedd 2016

(**1**) 2009 mccc 2.
(**2**) O.S. 2012/2539 (Cy. 278).